**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 19 Ionawr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | B Hopkins |
| L R Jones | H Lawson | M B Lewis |
| S Pritchard | D W W Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| David Jones | Rhoelwr Chwaraeon ac Iechyd |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

### 28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol;

Y Cynghorydd M Durke – Eitem 4 ar yr Agenda – Personol - Rydw i a Dr Nalda Wainwright yn weithwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

### 29 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

### 30 Datganiad sefyllfa Partneriaeth y Gwasanaethau Chwaraeon ac Iechyd ag Addysg.

Croesawodd y Cadeirydd Dr Nalda Wainwright, awdurdod blaenllaw yng Nghymru ar iechyd plant a llythrennedd corfforol, i'r cyfarfod.

Yna rhoddodd Dr Nalda Wainwright drosolwg byr o'i chefndir a'i phrofiad yn y maes pwnc, a rhoddodd gyflwyniad PowerPoint manwl, llawn gwybodaeth i'r aelodau.

Yn gynwysedig yn y cyflwyniad roedd y meysydd canlynol:

- dirywiad mewn gweithgarwch corfforol ar draws y gymdeithas;
- diffiniad o lythrennedd corfforol;
- proses ddatblygu ar gyfer gweithgarwch, o blant bach i bensiynwyr;
- mae plant yn symud yn llai nawr nag yn y gorffennol, a’r gwahanol resymau a ffactorau bywyd modern sy'n effeithio ar hyn;
- cynnydd mewn technoleg a’i hargaeledd i blant ifanc, a'i heffaith ar leihau gweithgarwch a chwarae yn yr awyr agored;
- diffyg gweithgareddau awyr agored, chwarae a chymysgu â phlant eraill o wahanol oedrannau a'u effaith negyddol ar ddatblygiad plant yn gorfforol ac yn feddyliol, a all achosi problemau gydag agweddau gwybyddol a lleferydd etc;
- mynydd datblygu sgiliau motor – a geirfa a datblygiad symud;
- sbiral gadarnhaol/negyddol o ymgysylltu a'r effeithiau a'r berthynas rhwng y diffyg gweithgarwch ac afiechyd yn ddiweddarach mewn bywyd;
- cysylltiadau rhwng cymhwysedd motor a gweithgarwch corfforol a'i effaith a'i bwysigrwydd wrth gynyddu'r cymhwysedd corfforol canfyddedig mewn plant ifanc, yn enwedig y rhai dan 7 oed;
- prosiect cyn-ysgol Perry - HighScope yn UDA a'i ganfyddiadau mewn perthynas â'r manteision ariannol a chymdeithasol a dderbyniwyd, o'u cymharu â'r swm a fuddsoddwyd, a allai fod yn fudd seithblyg;
- SKIP Cymru (Cyfarwyddyd Cinesthetig Llwyddiannus ar gyfer plant cyn oed ysgol yng Nghymru) – menter blynyddoedd cynnar/cyfnod sylfaen sydd wedi bod o fudd ac sy'n datblygu sgiliau motor plant ifanc;
- Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Weithgarwch Corfforol Plant a Phobl Ifanc y cytunwyd arno ond nad yw wedi'i gyflwyno eto ledled y wlad oherwydd pandemig COVID-19.

Siaradodd David Jones fwy am ei adroddiad a ddosbarthwyd a oedd yn rhoi trosolwg i'r pwyllgor o ddiben y tîm chwaraeon ac iechyd mewn perthynas â phartneriaethau, ac yn rhannu canlyniadau â chydweithwyr addysg gyda'r bwriad o ddatblygu cysylltiadau strategol pellach.

Dywedodd ei fod yn cefnogi'r sylwadau a'r mentrau a amlinellwyd gan Dr Nalda Wainwright uchod.

Amlinellodd y manylion cefndir a'r prif bolisïau a dylanwadau y mae'r tîm yn eu dilyn yn Abertawe wrth ddarparu ei wasanaethau i bobl ar draws yr ystodau oedran a'r cymunedau amrywiol. Cyfeiriodd at yr arian a gafwyd gan Chwaraeon Cymru.

Amlinellwyd strategaeth weithredol y gwasanaethau sy'n anelu at greu Abertawe egnïol ac iach yn atodiad A yr adroddiad.

Nododd fod y staff wedi ymrwymo i wella ac ehangu ar lythrennedd corfforol yn gyffredinol, a nododd fod y staff yn mwynhau'r sesiynau gyda'r bobl ifanc yn arbennig ac yn eu hannog i gymryd rhan am yr holl resymau a amlinellwyd yn ystod y cyflwyniad blaenorol ac a nodwyd yn yr adroddiad. Amlinellodd fod ganddo staff sydd â chymwysterau mewn cyrsiau Llythrennedd Corfforol sy'n cael eu cynnal gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Manylodd ar y sgiliau, y profiadau, y cymwysterau a'r wybodaeth sydd gan y staff, sy'n eu galluogi i gyflwyno ystod eang o sesiynau i'r gymuned gyfan ac amlinellodd hefyd fod y tîm yn cynnig hyfforddiant i staff ysgol gyfan a gwirfoddolwyr cymunedol mewn agweddau ar lythrennedd corfforol a chwaraeon cyffredinol a gweithgarwch corfforol.

Nododd y bydd staff mewn ysgolion yn aml yn targedu ac yn annog pobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r timau chwaraeon ysgol 'traddodiadol' i gymryd rhan.

Amlinellodd fod y tîm yn ymwneud â thros 90 o ysgolion yn Abertawe, a soniodd am lwyddiant y Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf (RGGH), gan gyfeirio at y canlyniadau rhagorol a'r adborth cadarnhaol a gafwyd mewn arolwg o bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun (atodiad B yr adroddiad).

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau amrywiol a gwnaethant sylwadau ynghylch y ddau faes a drafodwyd yn ystod y cyflwyniad a’r adroddiad a ddosbarthwyd, ac ymatebodd Dr Wainwright, y swyddog yn unol â hynny.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi gweld rhywfaint o dystiolaeth debyg i'r hyn y cyfeiriwyd ato yn yr astudiaeth o UDA uchod mewn cyfarfod craffu. Byddai'n ceisio dod o hyd i'r wybodaeth a'i dosbarthu i'r aelodau os yw'n bosib.

Diolchodd i Dr Wainwright a'r swyddog am eu cyfraniad a'u presenoldeb yn y cyfarfod.

## 31 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith fel yr amlinellwyd ac a nodwyd yn yr adroddiad, a nododd yr eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod:
Chwefror - Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
Mawrth – Addysg Awyr Agored

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.04 pm

**Cadeirydd**